

Gofal Brys ac Argyfwng – Trefniadau
ar gyfer Rheoli'r Galw –
Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4820A2025

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a chysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff y GIG yng Nghymru, ac adrodd wrth y Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025. Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti lle mae'r adroddiad hwn yn y cwestiwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
Ffeithiau a ffigyrau allweddol	5
Negeseuon allweddol	8
Argymhellion	10
Adroddiad manwl	
Trefniadau cynllunio	11
Cael mynediad at wasanaethau	15
Trefniadau craffu a monitro	27
Atodiadau	
Atodiad 1 – dulliau archwilio	32
Atodiad 2 – meini prawf archwilio	34
Atodiad 3 – ymateb y rheolwyr	38

Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2024 o'r trefniadau ar gyfer rheoli'r galw am ofal brys ac argyfwng yn Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth). Y gwaith hwn yw ail gam rhaglen o waith sy'n canolbwyntio ar nifer o elfennau o'r system gofal brys ac argyfwng yng Nghymru. Bu'r cam cyntaf, a archwiliodd y modd y cynllunnir ar gyfer rhyddhau ac effaith llif cleifion ar ofal brys ac argyfwng, yn destun adroddiadau rhanbarthol ar wahân a oedd yn cwmpasu'r byrddau iechyd ac awdurdodau lleol ym mhob un o'r saith rhanbarth iechyd a gofal cymdeithasol¹.
- 2 Mae ein dull yn cydnabod bod y system gofal brys ac argyfwng yn gymhleth, gydag angen i lawer o wahanol sefydliadau gydweithio i ddarparu gofal brys ac argyfwng a sicrhau bod y system ehangach yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon. Y Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng (Y Rhaglen Chwe Nod) gan Lywodraeth Cymru, a lansiwyd yn 2021, sy'n darparu'r cyd-destun ar gyfer ein gwaith. Ar adeg ein hadolygiad ni, mae'r system gofal brys ac argyfwng yng Nghymru'n dal i fod dan bwysau sylweddol.
- 3 Mae ein gwaith wedi archwilio sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn rheoli'r galw am wasanaethau gofal brys ac argyfwng. Yn benodol, fe wnaethom ystyried sut y mae'n gweithio i leihau cludiadau i Adrannau Achosion Brys a sut y mae'n rhoi cymorth i drin cleifion yn y lle iawn, y tro cyntaf ar gyfer eu hanghenion, lle ceir dewisiadau gwell na mynd i Adrannau Achosion Brys. Fe wnaed y gwaith i helpu i gyflawni dyletswyddau statudol yr Archwilydd Cyffredinol dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i fod wedi'i argyhoeddi bod gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol i sicrhau bod ei hadnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus.
- 4 Fe wnaethom ni ein gwaith rhwng mis Mai 2024 a mis Ionawr 2025. Caiff y dulliau archwilio a'r meini prawf a ddefnyddiom ni i gyflawni ein gwaith eu crynhoi yn **Atodiadau 1 a 2**.

¹ Mae'r saith rhanbarth iechyd a gofal cymdeithasol yn cyd-ffinio â'r saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol.

Ffeithiau a ffigyrau allweddol

Galwadau i 111 a 999	
2,427	Nifer cyfartalog y galwadau i'r gwasanaeth 111 bob dydd ym mis Chwefror 2024 ² (101 o alwadau yr awr).
14%	Galwadau i 999 a ddaeth i ben yn dilyn asesiad ffôn gan YGAC (gan roi cyngor neu gyfeirio at wasanaethau amgen) ym mis Chwefror 2024 ³ , o'i gymharu ag 8.2% ym mis Chwefror 2019.
178%	Cynnydd mewn galwadau ambiwlans Categori A (coch) rhwng mis Chwefror 2019 a mis Chwefror 2025.
15%	Galwyr 999 a ganslodd eu hambiwylans neu y dywedwyd wrthynt na allai'r Ymddiriedolaeth anfon ambiwlans atynt yn ystod mis Chwefror 2025, o'i gymharu â 24% ym mis Tachwedd 2024.

Ymateb ambiwlans	
51%	Galwadau ambiwlans Categori A (coch) yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud ym mis Chwefror 2025, o'i gymharu â 72% ym mis Chwefror 2019. 65% yw'r targed cenedlaethol ⁴ .

² Gan bod yr Ymddiriedolaeth wedi rhoi system 111 newydd ar waith ar gyfer ymdrin â galwadau ac asesu clinigol fe amharwyd ar y drefn ar gyfer adrodd ar y data hwn ers mis Chwefror 2024.

³ Dim ond hyd at fis Ebrill 2024 y mae data wedi'i wirio ar gael ar gyfer hyn; fodd bynnag, defnyddir data mis Chwefror 2024 at ddibenion cymharu.

⁴ Fel a ddisgrifir ym mharagraff 55, mae lefel y galw a nifer y cleifion y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu cyrraedd o fewn wyth munud yn tyfu.

02:03 awr	Amser cyfartalog i ymateb i alwadau ambr ym mis Chwefror 2025, cynnydd o un awr 37 munud o'i gymharu â'r cyfartaledd ym mis Chwefror 2019.
63%	Cleifion a gludwyd i'r ysbyty yn dilyn galwad 999 ym mis Chwefror 2025, o'i gymharu â 68% ym mis Chwefror 2019.

Oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys

16%	Cleifion a drosglwyddwyd o ofal criwiau ambiwlansys i adran achosion brys o fewn 15 munud i gyrraedd ym mis Chwefror 2025, o'i gymharu â 53% ym mis Chwefror 2019 ac yn erbyn targed cenedlaethol o 100%.
1,601	Nifer y prosesau trosglwyddo cleifion o ambiwlansys a gymerodd yn hwy na phedair awr ym mis Chwefror 2025.
18,812	Oriau a gollwyd oherwydd oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys ym mis Chwefror 2025, o'i gymharu â 5,610 o oriau a gollwyd ym mis Chwefror 2019. Mae hyn yn gynydd o 235%.
463	Cleifion yr amcangyfrifwyd iddynt ddioddef niwed difrifol oherwydd oedi hir cyn trosglwyddo o ambiwlansys ym mis Chwefror 2025 ⁵ . Mae hyn yn cyfateb i 3.5% o gyfanswm y trosglwyddiadau o ambiwlansys.

⁵ Yn seiliedig ar fodelu a ddatblygwyd gan Gymdeithas y Prif Weithredwyr Gwasanaethau Ambiwylans, 2021

Cyllid

£0

Cyllid y Rhaglen y Chwe Nod a ddyrannwyd yn uniongyrchol.

Negeseuon allweddol

Casgliad ar y cyfan

- 5 Ar y cyfan, canfuom **fod newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau'n arwain at welliannau o ran rheoli'r galw am ofal brys ac argyfwng, a ategir gan gynlluniau sy'n eglur ac yn cael eu monitro'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae eu heffaith yn cael ei rhwystro gan gyfyngiadau mewn data cydgysylltiedig a mynediad at lwybrau amgen mewn byrddau iechyd yn ogystal â chan lefelau sy'n gyson yn uchel o ran oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys mewn Adrannau Achosion Brys.**

Canfyddiadau allweddol

Trefniadau cynllunio

- 6 Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau cadarn ac eglur ar gyfer rheoli'r galw am ofal brys ac argyfwng, gyda newidiadau wedi'u bwriadu i reoli'r galw'n well trwy drin cleifion yn y gymuned yn hytrach na mynd â hwy i'r ysbyty, lle y bo'n bosibl.
- 7 Goleuir cynlluniau gan ddata ac maent yn ceisio mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â gofal brys ac argyfwng gyda chynlluniau gweithredu sy'n cyd-fynd â'r Rhaglen Chwe Nod. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth fynediad uniongyrchol at gyllid chwe nod cenedlaethol yn yr un ffordd â byrddau iechyd. O ganlyniad, mae'r Ymddiriedolaeth yn dibynnu i raddau helaeth ar adnabod ffynonellau dyraniadau cenedlaethol, ac ymgeisio am ddyraniadau cenedlaethol, i roi newidiadau ar waith mewn gwasanaethau a allai wella diogelwch a phrofiad cleifion yn ei thyb hi, sydd wedi achosi i gynlluniau gael eu gohirio neu wedi achosi oedi gyda hwy dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth wedi blaenoriaethu'r cynnydd yn y dyraniad i fwrw ymlaen â chynlluniau i drawsnewid ei model clinigol mewn ymgais i liniaru niwed y gellir ei osgoi sydd o fewn ei rheolaeth.

Cael mynediad at wasanaethau

- 8 Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio ystod o ddulliau i ddarparu gwybodaeth ar gyfer aelodau'r cyhoedd am ei gwasanaethau gofal brys ac argyfwng. Er nad oes cynllun cyfathrebu, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth ddiweddar ei chynllun ymgysylltu'n ddiweddar i ategu Rhaglen Trawsnewid ei Model Clinigol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio dulliau gan gynnwys postïadau ar y cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd a'u hysbysu am ddefnyddio gwasanaethau gofal brys ac argyfwng. Fodd bynnag, nid oes mecanweithiau ar waith i asesu a monitro dealltwriaeth y cyhoedd am ei gwasanaethau a phryd y dylid ceisio mynediad at y rhain.
- 9 Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o faterion parhaus gyda'r wefan 111 Cymru, gan gynnwys y gwiriwr symptomau. Er bod gwelliannau bychain yn cael eu rhoi ar

waith i ymdrin â phryderon uniongyrchol ynghylch y swyddogaethau y gellir eu cyflawni, mae achos busnes drafft wedi cael ei ddatblygu i ategu gwelliannau mwy sylweddol. Ar hyn o bryd mae'r offeryn gwirio symptomau'n cyfeirio defnyddwyr at wybodaeth sydd wedi dyddio, rhywbeth y mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod ei fod yn fater a ddylai gael blaenoriaeth. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cytuno i ddefnyddio cyllid cyfalaf dewisol i ddechrau gwaith ar ddiweddarau'r gwirwyr symptomau, gyda chyllid pellach i gefnogi gwelliannau cynhwysfawr wedi'i gynnwys yn yr achos busnes drafft sy'n cael ei drafod gyda chomisiynwyr ar hyn o bryd.

- 10 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ehangu'r ystod o wasanaethau y mae'n eu cynnig, gan gynnwys ehangu ei desg glinigol, datblygu ymarferwyr arbenigol ychwanegol a chynyddu ei defnydd o uwch ymarferwyr parafeddygol. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar reoli'r galw am ofal brys ac argyfwng. Mae cyfraddau rhoi cyngor o bell i gleifion wedi codi ers y lefelau cyn y pandemig, gyda data cynnar yn dynodi y bu newidiadau pellach ers i'r Ymddiriedolaeth newid ei model clinigol ym mis Tachwedd 2024. O ganlyniad, mae mwy o gleifion yn cael eu trin dros y ffôn a llai'n cael eu cludo i'r ysbyty.
- 11 Fodd bynnag, mae gallu'r Ymddiriedolaeth i ailgyfeirio cleifion yn ddibynnol hefyd ar argaeledd gwasanaethau amgen mewn byrddau iechyd. Er bod atgyfeiriadau at y gwasanaeth meddygaeth deulu y tu allan i oriau'n cynyddu, mae atgyfeiriadau at wasanaethau amgen yn dal i fod yn isel. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfeiriadur o wasanaethau ar gyfer ardal pob bwrdd iechyd, ond nid yw'r rhain wastad yn gywir ac yn gyfoes. Mae problemau cael mynediad at lwybrau amgen gan staff yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys a Chanolfannau Argyfwng yr Un Diwrnod hefyd yn golygu mai cludo i Adran Achosion Brys yw'r cyrchfan diofyn o hyd pan fo asesiad clinigol o bell eu wyneb-yn-wyneb wedi adnabod angen parhaus i'r claf gael gofal iechyd.
- 12 Mae manteision y newidiadau i wasanaethau a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth hefyd yn dal i gael eu gwrthbwyso gan y problemau parhaus gydag oedi hir cyn trosglwyddo o ambiwlansys ledled Cymru. Dim ond 16% o gleifion a gafodd eu trosglwyddo o ofal criwiau ambiwlansys i Adran Achosion Brys o fewn 15 munud i gyrraedd dros y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â tharged cenedlaethol o 100%. Mae amseroedd ymateb ar gyfer galwadau coch a galwadau ambr yn dal i gael eu herio, gyda risgiau bod oedi mewn amseroedd ymateb ac oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys yn arwain at niwed i gleifion. Mae'n debygol bod diffyg argaeledd ambiwlansys hefyd yn arwain at gyfraddau presenoldeb uwch mewn adrannau achosion brys ledled Cymru, wrth i gleifion deithio i'r ysbyty ar eu liwt eu hunain. Efallai na fyddai angen i rai o'r cleifion hyn fod wedi mynd i'r adran achosion brys, ond mae cyfleoedd i barafeddygon drin cleifion o bell (Gweld a Thrin) yn gynharach yn eu taith fel claf yn cael eu colli oherwydd oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys.

Trefniadau craffu a monitro

- 13 Mae'r Bwrdd a grwpiau gweithredol yn mynd ati'n rheolaidd i fonitro a chraffu ar gynnydd gyda chynlluniau a'u heffaith ar liniaru niwed i gleifion y gellir ei osgoi a risgiau gweithredol.
- 14 Ceir ystod o ddata i fonitro a chraffu ar sut y mae'r newidiadau i wasanaethau'r Ymddiriedolaeth yn gweithio. Fodd bynnag, nid yw'r data yma wedi ei gydgyssylltu â data byrddau iechyd, sy'n cyfyngu ar ddealltwriaeth yr Ymddiriedolaeth am sut y mae ei gwasanaethau'n effeithio ar daith cleifion yn ei chyfanrwydd, er bod yr Ymddiriedolaeth wrthi ar hyn o bryd yn gweithio i ddod o hyd i ddatrysiadau i'r mater hwn. Mae'r Ymddiriedolaeth yn casglu adborth staff a chleifion, y mae'n ei fwydo i mewn i'w chynlluniau strategol yn y dyfodol, ond mae cyfraddau ymateb yn isel.

Argymhellion

- 15 Mae **Arddangosyn 1** yn manylu ar yr argymhellion a gododd o'n gwaith. Caiff ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'n hargymhellion ei grynhoi yn **Atodiad 3**.

Arddangosyn 1: argymhellion

Argymhellion

Cywirdeb y wefan 111 Cymru

- A1 Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a ddefnyddir i gyfeirio cleifion at wasanaethau brys ac argyfwng yn gywir, dylai'r Ymddiriedolaeth weithio gyda phartneriaid i adolygu a disodli unrhyw hen wybodaeth neu wybodaeth gamarweiniol ar y wefan 111 Cymru, er enghraifft rhif ffôn Galw'r GIG Cymru (**Paragraff 27**).

Cyfeiriaduron Gwasanaethau

- A2 Er mwyn sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth fynediad at wybodaeth gywir a chyfoes am wasanaethau byrddau iechyd, dylai weithio gyda byrddau iechyd i adnabod arweinwyr ar gyfer cynnal y cyfeiriaduron (**Paragraff 45**).

Adroddiad manwl

Trefniadau cynllunio

- 16 Mae'r adran hon yn ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau cadarn i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys ac argyfwng. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth bod cynlluniau:
- wedi'u goleuo gan wybodaeth berthnasol a chyfoes;
 - yn adnabod risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys ac argyfwng ac yn ceisio mynd i'r afael â hwy;
 - yn cyd-fynd â gofynion y Rhaglen Chwe Nod, ac yn nodi'n glir sut y bydd llwybrau clinigol amgen yn gweithio; ac
 - yn adnabod lefelau cyfredol a gofynnol yr adnoddau a staff i wireddu'r uchelgeisiau bwriadedig.
- 17 Fe wnaethom adolygu Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) yr Ymddiriedolaeth ynghyd â'i fframwaith strategol tymor hwy, ei chynlluniau mewn perthynas â Rhaglen Trawsnewid ei Model Clinigol⁶ a ddatblygwyd yn ystod 2024, a'i chynllun gaeaf ar gyfer 2024-25.
- 18 Canfuom **fod cynlluniau ar gyfer rheoli'r galw am ofal brys ac argyfwng yn gadarn ac yn eglur ac yn cyd-fynd yn eglur â'r Rhaglen Chwe Nod genedlaethol.**
- 19 Caiff canfyddiadau ein hadolygiad o'r cynlluniau eu crynhoi yn **Arddangosyn 2**.

⁶ Mae'r Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol yn rhaglen o waith y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei harwain, gyda chymorth comisiynwyr a phartneriaid. Mae'r rhaglen yn ceisio cynyddu mewnbwn clinigol o fewn y cylch galwadau cleifion a darparu ystod fwy o opsiynau ymateb ar gyfer cleifion y mae arnynt angen asesiad wyneb-yn-wyneb. Dylai'r newidiadau hyn alluogi mwy o gleifion i gael mynediad at driniaeth sy'n briodol i'w hanghenion heb yr angen am gael eu cludo i ysbyty.

Arddangosyn 2: dull o gynllunio gwasanaethau gofal brys ac argyfwng

Cwestiwn archwilio	Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol	Canfyddiadau
Mae cynlluniau wedi'u goleuo gan wybodaeth berthnasol a chyfoes?	Ydynt	Mae cynlluniau'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys gwybodaeth berthnasol a chyfoes, gan gynnwys perfformiad gweithredol, rhagfynegiadau demograffig a data ar y galw a chapasiti. Maent hefyd yn cynnwys senarios wedi'u modelu ar gyfer perfformiad yr Ymddiriedolaeth, yn seiliedig ar lefelau gwirioneddol a lefelau gwell y gellid eu cyflawni o ran yr oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys a brofir yn y system iechyd ehangach.
Mae cynlluniau'n adnabod risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau gofal brys ac argyfwng ac yn ceisio ymdrin â hwy?	Ydynt	Mae cynlluniau'r Ymddiriedolaeth yn adnabod risgiau allweddol a chatau lliniaru yn eglur. Mae risgiau'n cyd-fynd â'r rhai a adnabuwyd trwy gofrestr risgiau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r risgiau hyn yn canolbwyntio ar effaith pwysau gweithredol ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth diogel ar gyfer cleifion. Mae'r risgiau hyn wedi bod â'r sgôr uchaf o 25 ers mis Rhagfyr 2019 oherwydd pwysau parhaus a chynyddol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflawni rhaglen waith ar hyn o bryd sy'n cynnwys adolygu'r risgiau hyn i nodi'r hyn a all gael ei reoli a'i liniaru gan yr Ymddiriedolaeth ar y naill law a pha ffactorau allanol y gall yr Ymddiriedolaeth eu monitro a cheisio dylanwadu arnynt ar y llaw arall. Mae risgiau mewn perthynas â newidiadau penodol i wasanaethau a phrosiectau penodol hefyd yn cael eu hadnabod a'u goruchwyllo'n rheolaidd gan grwpiau gweithredol, gyda phryderon yn cael eu

Cwestiwn archwilio	Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol	Canfyddiadau
		huwchgyfeirio at Fwrdd Trawsnewid Strategol yr Ymddiriedolaeth.
Mae cynlluniau'n cyd-fynd â gofynion y <u>Rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng</u> , ac yn nodi'n glir sut y bydd y llwybrau clinigol amgen yn gweithio?	Ydynt	Mae'r CTCl yn nodi'n glir sut y mae'n cyd-fynd â'r Rhaglen Chwe Nod ac yn dangos sut y gall yr Ymddiriedolaeth wneud cyfraniad ystyrlon ar draws pob nod unigol. Mae Atodiad 1 y CTCl yn rhoi disgrifiad eglur o bob nod, y datganiad ansawdd perthnasol, y camau gweithredu y mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu eu cymryd i gyrraedd pob nod a'r hyn y mae'n rhagweld fydd manteision mesuradwy ei chamau gweithredu. Mae adrannau perthnasol drwy gorff y CTCl yn nodi manylion sut y bydd llwybrau amgen neu welliannau i wasanaethau yn gweithio. Mae'r CTCl, ynghyd â'r dogfennau ar raglen trawsnewid y model clinigol yn amlinellu newidiadau sydd wedi'u bwriadu i reoli'r galw'n well trwy drin cleifion yn y gymuned yn hytrach na mynd â hwy i'r ysbyty, lle y bo'n bosibl. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno sgrinio clinigol cyflym ar gyfer galwadau 999 i adnabod cyfleoedd posibl i'w cyfeirio at wasanaethau amgen, ehangu rolau Uwch Ymarferwyr Parafeddygol a gwella gwasanaethau cwympiadau.
Mae cynlluniau'n adnabod lefelau cyfredol y staff ac adnoddau i wireddu'r uchelgeisiau bwriadedig?	Yn rhannol	Mae gan y CTCl oblygiadau eglur ar gyfer cynyddu'r gweithlu mewn meysydd gwasanaeth penodol. Manylir ymhellach ar gynlluniau i gefnogi'r goblygiadau hyn yng nghynllun strategol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y gweithlu. Nid yw'r CTCl yn adnabod yn glir beth yw'r costau gofynnol i fynd ar drywydd cynlluniau ychwanegol, a pha un a oes angen cyllid ychwanegol ar eu cyfer. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth fanwl hon ar gael yng

Cwestiwn archwilio	Ydynt/ Nac ydynt/ Yn rhannol	Canfyddiadau
		nghynlluniau ariannol manylach yr Ymddiriedolaeth. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn cael dyraniad cyllid Chwe Nod uniongyrchol yn yr un ffordd â byrddau iechyd, er y gall gael gafael ar gyllid trwy'r byrddau iechyd i gyfrannu at gynlluniau ar gyfer byrddau iechyd penodol. Mae argaeledd cyfyngedig cyllid ychwanegol wedi golygu y bu angen i'r Ymddiriedolaeth arafu neu ohirio newidiadau arfaethedig i rai o'i gwasanaethau dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn unol â chyrff eraill y GIG, cafodd yr Ymddiriedolaeth gynnydd yn ei dyraniad craidd yn ystod 2024-25, a'i galluogodd i fwrw ymlaen â rhaglen trawsnewid ei model clinigol.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Cael mynediad at wasanaethau

- 20 Mae'r adran hon yn ystyried a oes gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau priodol i annog a galluogi pobl i gael mynediad at wasanaethau gofal brys ac argyfwng sy'n diwallu eu hanghenion orau, a pha un a yw'r trefniadau hyn yn gweithio. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:
- cyfeirio cleifion yn effeithiol at y gwasanaethau gofal brys ac argyfwng mwyaf priodol;
 - bod gan staff fynediad at wybodaeth dda am yr ystod o wasanaethau sydd ar gael i gleifion, ac i ba raddau y ceir ymgysylltu da rhwng staff yr Ymddiriedolaeth a byrddau iechyd sy'n gysylltiedig â gofal brys ac argyfwng;
 - ystod o wasanaethau sy'n helpu i reoli'r galw am ofal brys ac argyfwng; ac
 - a yw'r trefniadau uchod yn helpu i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys ac argyfwng mewn modd cadarnhaol.
- 21 Canfuom **fod dull yr Ymddiriedolaeth o reoli'r galw'n gwella, ond bod oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys yn cyfyngu ar yr effeithlonrwydd gweithredol a geir trwy welliannau, ac nad yw gwybodaeth am daith cleifion yn ei chydganrwydd wedi'i chydgyssylltu.**

Cyfeirio'r cyhoedd at wasanaethau

- 22 Canfuom **nad yw gweithgarwch i gyfeirio'r cyhoedd at wybodaeth yn cael ei werthuso i sicrhau ei fod yn effeithiol, a bod materion parhaus gyda'r wefan 111 Cymru.**

Cynlluniau cyfathrebu

- 23 Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth gynllun cyfathrebu sy'n nodi sut y mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd i wella ac ategu eu dealltwriaeth am sut i gael mynediad at wasanaethau gofal brys ac argyfwng. Fodd bynnag, yn ddiweddar mae'r Ymddiriedolaeth wedi diweddarau ei Chynllun Ymgysylltu, a ddatblygwyd yn wreiddiol yn 2023, i ategu Rhaglen Trawsnewid ei Model Clinigol sy'n cynnwys gwybodaeth am negeseuon ar gyfer y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r cynllun ymgysylltu ar lefel uchel iawn ac nid yw'n amlinellu manylion ei dull o ymgysylltu â'r cyhoedd.
- 24 Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio ystod o ddulliau i ddarparu gwybodaeth ar gyfer aelodau'r cyhoedd am ei gwasanaethau gofal brys ac argyfwng. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, sylw yn y newyddion ar adegau o bwysau sylweddol, a gwybodaeth a gynhwysir ar wefan yr Ymddiriedolaeth a'r wefan 111 Cymru. Trwy ei Thîm Ymgysylltu â'r Cyhoedd a Chynnwys y Gymuned, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cynnal digwyddiadau i ymgysylltu â'r cyhoedd. Yn ôl adroddiad archwilio mewnol ym mis Chwefror 2025, cynhaliodd y tîm hwn 147 o ddigwyddiadau rhwng mis Ionawr 2023 a mis Hydref 2024 lle cyfarfu ag amrywiaeth o grwpiau cymunedol. Fel rhan o'r digwyddiadau

hyn, bydd yr Ymddiriedolaeth yn hysbysu cleifion pa wasanaethau ddylent geisio mynediad atynt a phryd.

Gwefan 111 Cymru

- 25 Mae'r wefan 111 Cymru'n disgrifio'i hun fel 'Cartref cyngor a gwybodaeth iechyd i bobl sy'n byw yng Nghymru' ac mae'n offeryn allweddol i gyfeirio'r cyhoedd at opsiynau gofal iechyd. Mae'n cynnwys gwirwyr symptomau, gwybodaeth am yr hyn y dylid ei wneud y tu allan i oriau arferol, cyfeiriadur o wasanaethau cyfagos a chyngor ynghylch gofal wedi'i gynllunio a byw'n iach. Fe gynyddodd nifer y trawiadau ar y wefan 111 Cymru yn sylweddol yn ystod 2023. Ar hyn o bryd mae cyfartaledd o 400,000 – 550,000 o bobl yn cael mynediad at y wefan 111 bob mis ledled Cymru.
- 26 Nid yw data sydd ar gael yn dangos y prif resymau pam fod pobl yn ymweld â'r wefan 111 Cymru, ond ceir data am y prif resymau y mae pobl yn ffonio'r llinell ffôn 111. Caiff y pum prif reswm dros alwadau eu nodi yn **Arddangosyn 3**.

Arddangosyn 3: y pum prif reswm dros ffonio 111 (Chwefror 2024)

Sefyllfa Cymru Gyfan	% yr holl alwadau
Problemau deintyddol	4.1
Poen yn yr abdomen	2.4
Poen yn y frest	1.6
Peswch	1.4
Brech	1.0

Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwylans

- 27 Fe wnaethom adolygu gwiriwr symptomau'r wefan 111 Cymru i ddeall pa gyngor sydd ar gael i gleifion sy'n chwilio am help gyda'r cyflyrau mwyaf cyffredin. Canfuom fod y wefan yn gallu bod yn annibynadwy, gyda'r gwiriwr symptomau weithiau'n methu ac yn dangos neges gwall. Dangosodd ein profion ni ar y gwiriwr symptomau ei fod hefyd yn gallu cyfeirio'r defnyddiwr at wybodaeth sydd wedi dyddio, gan gynnwys hen rif Galw'r GIG Cymru (**Argymhelliad 1**). Ar ben hynny, canfu ein hadolygiad fod y swyddogaethau y gellir eu cyflawni â'r offeryn brechau croen yn gyfyngedig, a hwnnw'n cynnwys sioe sleidiau o ddelweddau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati'n rheolaidd i geisio adborth gan y cyhoedd trwy arolwg ar-lein i ddeall eu profiadau o'r wefan 111 Cymru. Mae adborth gan y cyhoedd yn y gorffennol wedi codi materion tebyg gyda'r swyddogaethau y gellir eu cyflawni â'r gwiriwr symptomau a'r wefan yn fwy cyffredinol.

- 28 Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymwybodol o faterion parhaus gyda'r gwiriwr symptomau ac yn cydnabod yr angen i fuddsoddi mwy yn y wefan. Er bod newidiadau bychain yn cael eu gwneud i wella'r swyddogaethau y gellir eu cyflawni â hi a phrofiad defnyddwyr ohoni, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi buddsoddi mewn datblygu technoleg cynorthwyydd rhithwir yn ystod 2024-25, a oedd yn dal ar y gweill ar adeg ein gwaith maes. I ymdrin â heriau ehangach, mae'r Ymddiriedolaeth wedi drafftio achos busnes i ategu newidiadau mwy sylweddol i'r wefan, gan gynnwys diweddarau'r swyddogaethau y gellir eu cyflawni â gwirwyr symptomau a threfn lywodraethu well ar gyfer y drws blaen digidol. Bydd yr achos busnes yn cael ei gyflwyno i gomisiynwyr a Bwrdd y Rhaglen Chwe Nod yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch amlenni ariannol a disgwyliadau comisiynwyr. Bydd yr achos busnes hefyd yn ymdrin â gweithgarwch cyfathrebu mewn perthynas â'r gwasanaeth 111, ac wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei bod yn cynnwys mecanweithiau i werthuso effeithiolrwydd ei hymgysylltiad â'r cyhoedd ac addasu ei dull lle y bo angen.

Ymwybyddiaeth staff a'u gallu i atgyfeirio

- 29 Canfuom nad yw llwybrau a phrosesau atgyfeirio rhwng yr Ymddiriedolaeth a byrddau iechyd yn gweithio'n ddi-dor, sy'n effeithio ar fynediad at wasanaethau amgen.

Asesu a thriniaeth

- 30 Yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno llawer o fentrau a newidiadau i wasanaethau i wella ei harlwy glinigol gan amcanu at gynyddu triniaeth ar gyfer cleifion yn y gymuned a lleihau cludiadau i'r ysbyty. Mae hyn wedi cynnwys ehangu ei desg glinigol i ddarparu cyngor i gleifion dros y ffôn ar gyfer galwyr 999 yn ogystal â chyflwyno proses atgyfeirio er mwyn i gleifion sy'n ceisio cymorth gydag iechyd meddwl gael mynediad cyflym ac uniongyrchol at wasanaethau perthnasol y byrddau iechyd (y cyfeirir ati fel '111 pwyso 2'). Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi buddsoddi yn ei gallu i drin cleifion wyneb yn wyneb yn y gymuned, gan eu galluogi i aros gartref, gan gynnwys cynyddu ei gweithlu uwch ymarferwyr parafeddygol.
- 31 Cyfeirir at allu'r Ymddiriedolaeth i drin cleifion, rhoi cyngor iddynt neu eu cyfeirio at wybodaeth er mwyn osgoi eu cludo i'r ysbyty fel 'ymgynggori a chau'⁷ a 'gweld a thrin'. Mae **Arddangosyn 4** yn nodi i ba raddau y gall y ganolfan galwadau ambiwlans reoli cleifion ar ôl asesiad (ymgynggori a chau), ac y gall criwiau ambiwlansys reoli cleifion yn y fan a'r lle (gweld a thrin).

⁷ Cyfeirid ato'n flaenorol fel 'clywed a thrin'.

Arddangosyn 4: canran y galwadau ac ymatebion ambiwlans a ddaeth i ben ar ôl asesiad dros y ffôn (Mai 2023 – Ebrill 2024) neu yn y fan a’r lle (Mai 2023– Ebrill 2024) ⁸

Dangosydd	Sefyllfa Cymru Gyfan	Tuedd
% y galwadau 999 ambiwlans a ddaeth i ben ar ôl asesiad dros y ffôn (ymgynghori a chau)	13.9	
% yr ymatebion ambiwlans lle cafwyd triniaeth yn y fan a’r lle (gweld a thrin)	12.1	

Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwllans

- 32

Mae’r gyfradd ymgynghori a chau wedi cynyddu’n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, o 8.2% ym mis Chwefror 2019 i 14% ym mis Chwefror 2024. Mae’r cynnydd hwn i’w briodoli’n bennaf i fwy a mwy o fuddsoddiad mewn recriwtio clinigwyr i weithredu ei Desg Gymorth Cyngor Clinigol, yn enwedig fel rhan o gynlluniau i liniaru pwysau blynyddol yn y gaeaf.
- 33

Dengys data diweddar sydd heb gael ei wirio fod nifer y cleifion a gaiff eu trin neu eu hatgyfeirio at wasanaethau amgen dros y ffôn yn cynyddu ymhellach ar ôl i’r Ymddiriedolaeth gyflwyno asesiadau clinigol cyflym. Yn 2023, fe wnaeth YGAC gomisiynu dyluniad model clinigol o Wasanaethau Meddygol Brys yr Ymddiriedolaeth gan ORH⁹. Fe argymhellodd y gwaith y dylai galwadau 999 gael eu hadolygu a naill ai cael eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad clinigol llawnach o bell neu eu dychwelyd i’r ciw er mwyn i ambiwlans gael ei anfon. Ar ôl cael dyraniad craidd uwch yn ei chyllideb sylfaenol yn 2024-25 oherwydd chwyddiant, fe benderfynodd yr Ymddiriedolaeth fwrw ymlaen â’r argymhelliad hwn ac fe recriwtiodd 28 o gyfeirwyr clinigol i lansio cam cyntaf Rhaglen Trawsnewid ei Model Clinigol ym mis Tachwedd 2024. Dangosodd data heb ei wirio ar gyfer mis Rhagfyr 2024 fod y gyfradd wedi cynyddu o lai na 15% i fwy nag 20%.
- 34

Pan fo galwad yn dod i ben trwy ymgynghori a chau, gall claf fod wedi cael amrywiaeth o gyngor a all gynnwys hunanofal, cysylltu â’u meddyg teulu o fewn oriau gwaith arferol, neu gyfeirio at wasanaethau eraill sydd ar gael (fel a nodir yn **Arddangosyn 5**). O fewn yr Ymddiriedolaeth, bu cynnydd yn yr ystod o wasanaethau sydd ar gael i atgyfeirio’n uniongyrchol atynt. Mae’r rhain yn cynnwys

⁸ Nid oes data ar gael y tu hwnt i fis Ebrill 2024.

⁹ Cwmni sy’n gwneud gwaith ymchwil a dadansoddi ar wasanaethau argyfwng sydd wedi’i fwriadu i optimeiddio’r defnydd o adnoddau a’r ymateb yw ORH, a adwaenir hefyd fel Operational Research in Health Ltd.

y gwasanaeth '111 pwyso 2' iechyd meddwl sy'n cyfeirio cleifion at gymorth gyda'u hiechyd meddwl, yn ogystal â'r gwasanaeth deintyddol brys i drefnu apwyntiadau brys. Mae'r gwasanaeth deintyddol brys ar gael trwy 111 ar gyfer pump o'r saith bwrdd iechyd (heb gynnwys Aneurin Bevan a Chaerdydd a'r Fro sydd â'u gwasanaethau eu hunain).

- 35 Yn 2023, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth hefyd ddatblygu ei gallu i fonitro a rheoli cleifion yn y gymuned o bell trwy'r gwasanaeth Connected Support Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio cymorth ymatebwyr gwirfoddol, clinigwyr desg gymorth cyngor clinigol a thechnoleg monitro o bell i reoli cleifion o bell a'u cadw gartref, lle y bo'n briodol. Mae'r gwasanaeth hwn yn ei gamau cynnar ar hyn o bryd, gyda chynlluniau iddo gael ei dyfu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf fel a amlinellir yn CTCI yr Ymddiriedolaeth 2024-27. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio cyllid byrdymor gan Elusennau'r GIG Gyda'n Gilydd sydd i fod i orffen ym mis Mawrth 2025. Mae dyfodol y gwasanaeth hwn yn dibynnu ar lefel y buddsoddiad ychwanegol sydd ar gael.
- 36 Er bod cyfradd y cleifion a gaiff eu trin yn y fan a'r lle wedi cynyddu yn ystod y 12 mis rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025, mae'r gyfradd wedi gostwng ychydig dros gyfnod hwy. Rhwng mis Mawrth 2019 a mis Chwefror 2020, roedd y gyfradd yn gyfartaledd o 2,770 o gleifion a oedd yn cael eu trin yn y fan a'r lle bob mis, o'i gymharu â chyfartaledd o 2,321 rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025.
- 37 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn ehangu ei gwasanaeth uwch ymarferwyr parafeddygol i osgoi cludo i'r ysbyty a gwella deilliannau cleifion. Mae uwch ymarferwyr parafeddygol yn darparu triniaethau estynedig i gleifion yn eu cartrefi neu eu cymunedau. Ers cyflwyno'r rôl uwch ymarferydd parafeddygol yn 2017, mae nifer y rolau hyn yn yr Ymddiriedolaeth wedi cynyddu i 119 yn ôl y sefyllfa ym mis Chwefror 2025, gydag 11 arall wrthi'n cael eu recriwtio. Mae CTCI yr Ymddiriedolaeth yn nodi cynlluniau i gynyddu'r gweithlu hwn ymhellach o 40 y flwyddyn hyd at 2027, gan ddibynnu ar argaeledd cyllid. Dengys astudiaethau achos, gwerthusiadau lleol a chyfweliadau fod y rôl uwch ymarferydd parafeddygol yn cael effaith sylweddol o ran trin cleifion yn nes at adref. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cael ei ddangos yn glir ar hyn o bryd o fewn data 'gweld a thrin' sydd ar gael. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud gwaith i ddeall y rhesymau dros hyn.
- 38 Yn ychwanegol at uwch ymarferwyr parafeddygol, mae'r Ymddiriedolaeth wedi datblygu Uned Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru (CHARU) sy'n rhoi gofal uwch i'r cleifion mwyaf difrifol wael, gan gynnwys y rhai sy'n profi ataliad y galon neu drawma mawr. Dengys data a gyflwynwyd i Bwyllgor Cyllid a Pherfformiad yr Ymddiriedolaeth ym mis Medi 2024 fod y gwasanaeth yn cefnogi deilliannau gwell ar gyfer galwadau 'coch' megis ataliadau'r galon.
- 39 Ar gyfer anghenion brys lle nad yw bywyd yn y fantol, mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn ceisio datblygu ei gwasanaethau ei hun, gan gynnwys ymatebwyr i gwympiadau. Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu dwy lefel o wasanaethau ymateb i gwympiadau, gyda lefel un yn canolbwyntio ar godi cleifion oddi ar y llawr. Mae

lefel dau’n gweithio gyda byrddau iechyd i roi mwy o gymorth i gleifion yn dilyn cwmp pan fo’u heiddilwch yn gwaethgu, trwy gynnal asesiad meddygol a chymdeithasol llawn ar adeg yr angen.

Atgyfeirio at wasanaethau eraill

- 40

Yn ogystal ag argaeledd ei gwasanaethau amgen ei hun, mae gallu’r Ymddiriedolaeth i atgyfeirio cleifion at wasanaethau amgen yn dibynnu ar argaeledd y gwasanaethau hynny yn rhanbarthau’r byrddau iechyd. Canfuom fod gan bob bwrdd iechyd ystod o wasanaethau i reoli a thrin anghenion gofal brys ac argyfwng.
- 41

Mae **Arddangosyn 5** yn nodi i ba raddau y mae 111 wedi gallu atgyfeirio cleifion at wasanaethau brys ac argyfwng eraill.

Arddangosyn 5: atgyfeirio at wasanaethau eraill (Mawrth 2023 – Chwefror 2024)

Dangosydd	Sefyllfa Cymru Gyfan	Tuedd
% y galwadau 111 a atgyfeiriwyd at wasanaethau meddygaeth deulu y tu allan i oriau	41.5	
% y galwadau 111 lle rhoddwyd cyngor i fynd i Adran Achosion Brys/Uned Môn Anafiadau	10.6	
% y galwadau 111 a atgyfeiriwyd at wasanaeth deintyddol brys	9.7	
% y galwadau 111 a atgyfeiriwyd at 999	6.7	
% y galwadau 111 lle rhoddwyd cyngor i gysylltu â’u meddyg teulu (yn ystod oriau arferol)	4.6	
% y galwadau 111 a atgyfeiriwyd at weithiwr iechyd proffesiynol arall	2.0	

Ffynhonnell: Dangosfwrdd Gofal Brys ac Argyfwng IGDC, Data Meddygaeth Deulu y Tu Allan i Oriau, Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwylans

- 42

Dengys y data mai’r gwasanaeth mwyaf cyffredin yr atgyfeirir galwyr 111 ato yw’r gwasanaeth meddygaeth deulu y tu allan i oriau, gyda’r gyfradd hon yn cynyddu rhwng mis Mawrth 2023 a mis Chwefror 2024. Mae’r gyfradd hon yn cyd-fynd â negeseuon ar gyfer y cyhoedd sy’n cynghori cleifion ag anghenion brys y tu allan i

oriau arferol i gysylltu ag 111 i gael mynediad at wasanaethau meddygaeth deulu y tu allan i oriau ac mae'n awgrymu bod negeseuon ar gyfer y cyhoedd yn gweithio'n effeithiol ar y cyfan yn y cyswllt hwn. Mae'r gyfradd o ran trinwyr galwadau 111 yn cynghori cleifion i gysylltu â'u meddyg teulu eu hunain yn ystod oriau arferol (4.6%) yn dynodi y gallai cleifion gael eu hysbysu'n well ynghylch pa wasanaethau i geisio mynediad atynt; fodd bynnag, mae hefyd yn debygol ei bod yn adlewyrchu sut y mae'r cyhoedd yn gynyddol yn cael trafferth cael mynediad priodol at apwyntiadau meddygon teulu yn ystod oriau arferol oherwydd materion capasiti mewn gofal sylfaenol. Mae cyfradd isel yr atgyfeiriadau at weithwyr iechyd eraill (2%) hefyd yn awgrymu bod gwasanaethau amgen cyfyngedig yn eu lle i staff galwadau 111 atgyfeirio cleifion â chyflyrau penodol atynt.

- 43 Rhwng mis Chwefror 2022 a mis Chwefror 2024, cafodd 5.2% o alwadau 999 eu trosglwyddo i'r gwasanaeth 111, ar y sail yr ystyriwyd fod y galwadau'n rhai difrys ac felly y gellid ymdrin â hwy trwy wasanaethau amgen. Fodd bynnag, cafodd 27.7% o'r galwadau hyn eu trosglwyddo'n ôl i'r gwasanaeth 999 gydag 'angen ambiwlans' wedi'i nodi fel canlyniad. Mae'r gyfradd gymharol uchel hon yn awgrymu, er nad yw'r achosion hyn yn rhai â digon o frys i warantu ymateb 999, bod opsiynau ar gyfer gwasanaethau amgen naill ai heb fod yn eu lle neu heb fod yn hygyrch.
- 44 I hwyluso atgyfeirio effeithiol rhwng yr Ymddiriedolaeth a byrddau iechyd, mae angen ystod ddigonol o lwybrau priodol y mae staff yr Ymddiriedolaeth yn ymwybodol ohonynt ac yn gallu cael mynediad atynt. Un o uchelgeisiau allweddol Rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol yw cynyddu cydweithio rhwng yr Ymddiriedolaeth a byrddau iechyd i adnabod llwybrau posibl ar gyfer cleifion, ac i sicrhau bod gan glinigwyr yr Ymddiriedolaeth fynediad priodol at y llwybrau hynny, trwy ffrydio cleifion naill ai i hybiau clinigol byrddau iechyd, neu yn uniongyrchol at lwybr gofal trwy'r cyfeiriadur gwasanaethau.
- 45 Mae gan yr Ymddiriedolaeth gyfeiriadur gwasanaethau ar gyfer ardal pob bwrdd iechyd. Mae cyfeiriaduron gwasanaethau wedi cael eu sefydlu i gynnwys gwybodaeth gywir a chyfoes am lwybrau amgen sydd ar gael i barafeddygon a chlinigwyr o bell allu cyfeirio cleifion atynt. Fodd bynnag, canfu ein gwaith maes fod angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer cynnal cyfeiriaduron gwasanaethau rhwng yr Ymddiriedolaeth a byrddau iechyd i sicrhau eu bod yn gywir ac yn gyfoes, gan gynnwys bod â'r oriau agor cywir ar gyfer gwasanaethau (**Argymhelliad 2**).
- 46 Lle mae llwybrau wedi'u sefydlu, canfu ein gwaith maes hefyd fod materion gyda sicrhau bod staff yr Ymddiriedolaeth yn gallu cael mynediad atynt. Gall hyn fod oherwydd:
- bod meini prawf atgyfeirio'n aneglur neu'n rhy gyfyngedig;
 - nad yw llwybrau'n caniatáu atgyfeiriadau gan staff yr Ymddiriedolaeth; neu
 - fod maint yr amrywiad yn y ffordd y mae gwasanaethau'n gweithredu'n eu gwneud yn fwy o her i staff yr Ymddiriedolaeth gael mynediad atynt yn gyson neu'n effeithlon.

- 47 Awgrymodd cyfweiliadau gydag ystod o grwpiau o staff fod yr anghysonderau yn argaeledd gwasanaethau amgen a mynediad atynt yn atgyfnerthu Adrannau Achosion Brys fel y cyrchfan diofyn ar gyfer cludiadau mewn ambiwlansys.
- 48 Yn unol ag uchelgeisiau'r Rhaglen Chwe Nod, mae rhai byrddau iechyd wedi sefydlu Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys. Egwyddor Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys yw darparu diagnosis a thriniaeth i gleifion sydd ag anafiadau neu afiechydon brys ond nad yw eu bywyd yn y fantol. Fodd bynnag, mae'r Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys a ddatblygwyd mewn ymateb i'r Rhaglen Chwe Nod yn amrywio o fewn a rhwng byrddau iechyd. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn peilota'r arfer bod y gwasanaeth 111 yn trefnu'n uniongyrchol bod cleifion yn mynd i Ganolfannau Gofal Sylfaenol Brys, ond mae hyn yn gyfyngedig i nifer fach o apwyntiadau ac ar gyfer cyflyrau penodol iawn. Mae hyn yn atal staff yr Ymddiriedolaeth rhag defnyddio Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys i'w llawn botensial i reoli galw brys yn y ffordd y maent wedi'u bwriadu i gael eu defnyddio.
- 49 Un o uchelgeisiau allweddol eraill y Rhaglen Chwe Nod oedd bod byrddau iechyd yn sefydlu Canolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod i ddarparu asesiadau a thriniaeth yr un diwrnod heb yr angen i'r claf gael ei dderbyn i'r ysbyty dros nos. Rydym wedi canfod bod y modelau Canolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod a ddatblygwyd mewn ymateb i'r Rhaglen Chwe Nod hwythau'n amrywio ar draws byrddau iechyd. Mae'r amrywiad hwn yn arwain at ddiffyg eglurder i staff yr Ymddiriedolaeth o ran y meini prawf atgyfeirio sy'n bodoli a'r llwybrau y dylent eu defnyddio i gael mynediad at Ganolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod.
- 50 Mewn ymateb i'r mater hwn, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru bolisi Cymru gyfan ar atgyfeirio'n uniongyrchol gan barafeddygon at ofal argyfwng yr un diwrnod ym mis Ebrill 2022. Mae'r polisi'n eglurhau gwahanol ddisgwyliadau staff yr Ymddiriedolaeth a byrddau iechyd i ategu atgyfeiriadau effeithiol i mewn i Ganolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. Fodd bynnag, er bod y polisi'n datgan ei bod yn 'hanfodol i'r system gofal brys ac argyfwng yng Nghymru bod atgyfeirio'n uniongyrchol gan barafeddygon i mewn i'r Canolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod/gwasanaethau dydd yn cael ei roi ar waith', dengys data'r Ymddiriedolaeth, rhwng mis Mai 2023 a mis Chwefror 2025, ar gyfartaledd, mai dim ond 0.13% o'r cleifion a gludwyd gafodd eu cludo i Ganolfan Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod bwrdd iechyd bob mis.
- 51 Clywsom resymau amrywiol dros y gyfradd atgyfeirio isel hon yn ystod ein gwaith maes. Roedd hyn yn cynnwys materion technegol ond, yn fwy amlwg, bod unedau'r Canolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod yn tueddu i lenwi o fewn munudau i agor oherwydd pwysau ehangach ar Adrannau Achosion Brys. Maent yn aros yn llawn wedyn nes daw hi'n rhy hwyr i dderbyn unrhyw atgyfeiriadau newydd cyn bod yr unedau'n cau.

Effaith gwasanaethau i helpu i reoli'r galw

- 52 Canfuom fod gwaith diweddar i leihau cludiadau i Adrannau Achosion Brys wedi'i wrthbwysu gan oedi anarferol o hir cyn trosglwyddo o ambiwlansys ledled Cymru.

Amseroedd aros ambiwlansys

- 53 Dengys data fod galw ar wasanaethau'r Ymddiriedolaeth, yn enwedig mewn perthynas â galwadau coch, wedi cynyddu, gan roi straen ychwanegol ar ei gallu i ddarparu gwasanaeth amserol. Fe gynyddodd galwadau coch ledled Cymru 178% rhwng mis Chwefror 2019 a mis Chwefror 2025, gyda chyfartaledd o 5,367 o alwadau coch y mis rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025 (cyfartaledd o 179 o alwadau'r dydd). Mae hyn i'w briodoli'n rhannol i'r angen i gynyddu nifer y cyflyrau yn y categori coch i sicrhau eu bod yn cael ymateb mwy amserol. Er bod nifer y galwadau ambr wedi gostwng ychydig ers y pandemig, maent yn dal i roi cyfrif am y rhan fwyaf o alwadau 999, gyda chyfartaledd o 24,412 o alwadau'r mis rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025 (cyfartaledd o 814 o alwadau'r dydd).
- 54 Roedd canran gyfartalog y galwadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn wyth munud rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025 yn 48.6% ac yn sylweddol is na'r targed o 65%. Fodd bynnag, yn ystod y 12 mis hynny, mae perfformiad wedi gwella gyda'r Ymddiriedolaeth yn cyrraedd nifer fwy o gleifion o fewn wyth munud. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 2024 a mis Ionawr 2025 fe gyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth 33% a 22% yn fwy o gleifion na'i chyfradd gyfartalog dros ddwy flynedd. Yn dilyn y cyhoeddiad diweddar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol, bydd newidiadau i fonitro perfformiad, gyda dau fetrig ar wahân yn cael eu creu: y naill ar gyfer ataliad y galon ac ataliad anadlol; a'r llall ar gyfer galwadau brys coch eraill. Bydd y newidiadau hyn yn dod i rym o 1 Gorffennaf 2025¹⁰.
- 55 Mewn cyferbyniad â galwadau coch, mae ymatebion i alwadau ambr wedi mynd yn sylweddol waeth dros y blynyddoedd diwethaf. Ar gyfartaledd, roedd yr amser ymateb i alwadau ambr rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025 yn 1 awr 50 munud, gan godi i 9 awr 58 munud ar gyfer cleifion a oedd yn aros am yr amser hwyaf (95ain ganradd). Fe amrywiodd y perfformiad hwn yn ystod y 12 mis hynny, gyda dirywiad sylweddol yn ystod mis Rhagfyr 2024 a mis Ionawr 2025 oherwydd pwysau'r gaeaf. Roedd amseroedd ymateb cyfartalog ar gyfer y misoedd hynny'n 3 awr, 1 munud a 2 awr, 29 munud yn y drefn honno.
- 56 Mae trinwyr galwadau'n rhoi amcangyfrif i gleifion o'u hamser ymateb yn ystod eu galwad. O ganlyniad, ers 2022 mae cyfran sylweddol o alwyr 999 wedi ffonio'n ôl i

¹⁰ Ar 11 Mawrth 2025, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol newidiadau i'r fframwaith perfformiad ar gyfer gwasanaethau ambiwlans a fyddai mewn grym o 1 Gorffennaf 2025.

ganslo eu lle yn y ciw ar gyfer ymateb ambiwlans ('galwadau wedi'u canslo'). Bu amgylchiadau hefyd lle bu angen i drinwyr galwadau hysbysu cleifion nad oeddent yn gallu anfon ymateb ambiwlans atynt oherwydd pwysau gweithredol ar yr adeg honno ('peidio anfon/methu anfon'). Mae'n destun pryder nad oes dull i gofnodi'r hyn sy'n digwydd i'r cleifion hyn i ganfod pa un a wnaethant benderfynu teithio ar eu liwt eu hunain i'r Adran Achosion Brys, dod o hyd i wasanaethau amgen ar gyfer eu hanghenion neu'n syml benderfynu peidio â chael triniaeth.

- 57 Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati'n rheolaidd i gasglu ac adrodd ar ddata ar nifer y galwadau wedi'u canslo neu alwadau a gafodd ymateb 'peidio anfon/methu anfon'. Ym mis Medi 2024, roedd y garfan hon yn rhoi cyfrif am 9,440 o alwadau neu 21% o gleifion a ffoniodd 999 y mis hwnnw. Mae gwaith pellach gan yr Ymddiriedolaeth wedi canfod bod hyd at 20% o'r holl alwadau wedi'u canslo'n deillio o gleifion sy'n ymgyflwyno â phoen yn y frest neu gwympiadau, cyflyrau a all arwain at niwed sylweddol i gleifion. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi clywed yn uniongyrchol am yr effaith y gall hyn ei chael ar gleifion, gan gynnwys hanes claf yn ystod 2023, lle cafodd claf ataliad y galon ym maes parcio'r ysbyty ar ôl i aelod o'r teulu fynd â hwy i'r ysbyty mewn car am nad oedd ambiwlans ar gael.
- 58 Fel rhan o Raglen Trawsnewid y Model Clinigol, fe benderfynodd yr Ymddiriedolaeth ym mis Tachwedd 2024 roi'r gorau i ddarparu ymateb 'peidio anfon/methu anfon', gan ddibynnu ar effaith ei newidiadau newydd megis sgrinio clinigol cyflym i reoli'r galw'n well. Golyga hyn fod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am y claf a'r risg i'r claf. Ymddengys fod hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol, gan bod data o fis Chwefror 2025 yn dangos bod niferoedd yr ambiwlansys wedi'u canslo wedi lleihau i 5,815, gan roi cyfrif am 15% o gyfanswm y galwadau am y mis hwnnw.

Cludo i'r ysbyty

- 59 Ar ôl i'r ambiwlans gael ei anfon ac i benderfyniad gael ei wneud bod ar y claf angen asesiad a thriniaeth yn yr ysbyty, byddant yn cael eu cludo. Er yr effeithiwyd yn sylweddol ar y gyfradd cludo i'r ysbyty gan y gwasanaeth ambiwlans yn ystod y pandemig, mae data ers 2023 yn dangos cyfradd gludo sy'n gostwng yn gyson o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig, gyda chyfraddau'n gostwng o 68% (19,022 o gleifion) ym mis Chwefror 2019 i 63% (11,705 o gleifion) ym mis Chwefror 2025.
- 60 Mae data sy'n dangos i ble y caiff cleifion eu cludo'n dynodi cyfleoedd pellach i gynyddu cludiadau i gyrchfannau heblaw'r Adran Achosion Brys. Mae **Arddangosyn 6** yn nodi'r cyrchfan ar gyfer pob cludiad.

Arddangosyn 6: cyrchfan cludo fel cyfran o gyfanswm y cludiadau (Mawrth 2024 - Chwefror 2025)

Dangosydd	Sefyllfa Cymru Gyfan	Tuedd
% y cleifion a gludwyd i brif adrannau achosion brys	88.7	
% y cleifion a gludwyd i unedau mân anafiadau	6.4	
% y cleifion a gludwyd i brif uned derbyniadau meddygol aciwt	3.1	
% y cleifion a gludwyd i uned arall e.e. uned iechyd meddwl neu famolaeth	1.8	

Ffynhonnell: Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwylans

- 61

Mae'r mwyafrif llethol o gludiadau'n dal i fod i Adrannau Achosion Brys. Mae'n debygol mai dyma'r cyrchfan mwyaf priodol i lawer o alwadau sydd, o ran eu natur, yn rhai brys a/neu lle mae bywyd yn y fantol. Fodd bynnag, mae ein cyfweiliadau gyda staff gwasanaethau ambiwlans a byrddau iechyd yn awgrymu bod rhwystrau'n bodoli sy'n atal criwiau ambiwlans rhag cludo cleifion i leoliadau a all fod yn fwy priodol i'w hanghenion.
- 62

Er enghraifft, mae cyfraddau cludo i unedau mân anafiadau'n gyson yn isel. Rhan o'r rheswm dros hyn yw bod amrywiad sylweddol mewn oriau agor a meini prawf ar gyfer derbyn atgyfeiriadau at yr unedau mân anafiadau sy'n gweithredu o fewn a rhwng byrddau iechyd. O ganlyniad, dywedodd y rhai y cyfwelom ni â hwy y bydd parafeddygon yn tueddu i ddibynnu ar gludo i Adrannau Achosion Brys. Mae hyn yn lleihau'r risg na fydd y claf yn cael ei dderbyn gan yr uned mân anafiadau, sy'n arwain at brofiad gwael ar gyfer y claf ac aneffeithlonrwydd o ran gorfod cyflawni cludiad ychwanegol i'r Adran Achosion Brys.
- 63

Clywsom hefyd y gall rhai dewisiadau yn lle'r Adran Achosion Brys, megis atgyfeirio'n uniongyrchol at unedau o fewn arbenigeddau, fod yn gyndyn o dderbyn atgyfeiriadau gan barafeddygon. Y rheswm dros hyn yw'r mathau o arsylwadau a phrofion y gall parafeddygon eu cwblhau. Byddai'n well gan y gwasanaethau hyn i gleifion gael eu cyfeirio trwy'r Adran Achosion Brys yn gyntaf.
- 64

Fodd bynnag, mae data ar gludo i'r ysbyty yn dilyn galwadau 999 o gartref gofal yn dangos rhai arwyddion o welliant. Gostyngodd y gyfradd hon o uchafbwynt o 64.8% ym mis Tachwedd 2023 i isafbwynt o 58.7% ym mis Medi 2024. Awgryma hyn fod peth o'r gwaith y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud i gefnogi cartrefi

gofal, gan gynnwys darparu offer codi neu ddarparu gwasanaethau estynedig ar gyfer ymateb i gwympiadau, yn arwain at gyfraddau is o ran cludo i'r ysbyty.

Trosglwyddo o ambiwlansys

- 65 Dengys data fod oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys yn dal i fod ar lefelau annerbyniol. Dim ond 16% o gleifion a drosglwyddwyd o ofal criwiau ambiwlansys i Adran Achosion Brys o fewn 15 munud i gyrraedd rhwng mis Mawrth 2024 a mis Chwefror 2025, yn erbyn targed cenedlaethol o 100%. Mae hyn yn cymharu â 56% rhwng mis Mawrth 2018 a mis Chwefror 2019. Cafodd llai na hanner (43.9%) y cleifion a gludwyd i Adran Achosion Brys eu trosglwyddo o ambiwlansys o fewn awr yn ystod mis Chwefror 2025. 2 awr, 12 munud oedd yr amser cyfartalog ar gyfer trosglwyddo cleifion o ambiwlansys ym mis Rhagfyr 2024. Yn Lloegr, 39 munud oedd yr oedi cyfartalog cyn trosglwyddo o ambiwlansys ar gyfer mis Rhagfyr 2024.
- 66 Mae'r lefelau uchel hyn o oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys yn arwain at niferoedd eithriadol o uchel o 'oriau coll' lle nad yw criw parafeddygol yn gallu ymateb i alwadau eraill yn y gymuned, gydag oriau coll yn rheolaidd dros 20,000 y mis yn ystod 2024. Mae hyn yn fras rhwng chwarter a thraean o'r capasiti sydd ar gael gan y gwasanaeth ambiwlans bob mis. Mae cymharu oriau coll ar gyfer mis Chwefror 2025 â'r rhai y mis Chwefror 2019 yn dangos cynnydd o 235%. Mae'r oriau coll ym mis Chwefror 2025 yn cyfateb i 1,597 o sifftiau 12 awr gan barafeddygon.
- 67 Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Gymdeithas y Prif Weithredwyr Gwasanaethau Ambiwylans (AACE) yn datgan bod cleifion sy'n profi oedi o fwy nag un awr yn llawer mwy tebygol o brofi niwed y gellir ei osgoi oherwydd yr oedi y maent yn ei wynebu. Gan ddefnyddio'r gwaith modelu a ddatblygwyd fel rhan o'r ymchwil honno, mae'r Ymddiriedolaeth wedi amcangyfrif bod 463 o gleifion (3.5% o'r cleifion a gludwyd) wedi profi niwed difrifol oherwydd oedi hir cyn trosglwyddo o ambiwlansys ym mis Chwefror 2025.
- 68 Er gwaethaf gweithgarwch cynyddol yr Ymddiriedolaeth i osgoi cludiadau i'r ysbyty trwy drin o bell, naill ai dros y ffôn neu yn y cnawd, dengys data fod peth wmbredd o waith i'w wneud o hyd i wella perfformiad trosglwyddo o ambiwlansys. Bydd diffyg argaeledd ambiwlansys yn arwain at gyfraddau presenoldeb uwch mewn adrannau achosion brys ledled Cymru hefyd, wrth i gleifion deithio ar eu liwt eu hunain i'r ysbyty. Efallai na fyddai angen i rai o'r cleifion hyn fod wedi mynd i'r adran achosion brys, ond mae cyfleoedd i barafeddygon drin cleifion o bell (Gweld a Thrin) yn gynharach yn eu taith fel claf yn cael eu colli oherwydd oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys.
- 69 Mae problemau sy'n gysylltiedig ag oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys yn cael eu cydnabod yn eang. Ym mis Mawrth 2025, fe gyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod grŵp cyflawni ar gyfer gwella prosesau trosglwyddo cleifion o ambiwlansys yn cael ei sefydlu. Mae'r grŵp hwn wedi'i fwriadu i adnabod a goruchwyllo camau gweithredu i wella perfformiad

o ran trosglwyddo cleifion o ambiwlansys, gan ddysgu o arfer gorau ledled y DU ac yn rhyngwladol. Rhagwelir diweddariad ar y cynnydd gyda gwaith y grŵp hwn ym mis Gorffennaf 2025.

Trefniadau craffu a monitro

- 70 Mae'r adran hon yn ystyried a yw'r Ymddiriedolaeth yn gwneud digon i fonitro perfformiad ei gwasanaethau gofal brys ac argyfwng, ac yn rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith i wella gwasanaethau ymhellach. Roeddem yn chwilio'n benodol am dystiolaeth o'r canlynol:
- trefniadau i fonitro effaith llwybrau clinigol amgen; a
 - goruchwyliaeth a chraffu effeithiol ar gyflawni cynlluniau ar gyfer gofal brys ac argyfwng.
- 71 Canfuom **fod goruchwyliaeth dda ar berfformiad a chynnydd gyda chynlluniau mewn perthynas â'r galw am ofal brys ac argyfwng a oleuir gan adborth staff a chleifion ond y cyfyngir ar hynny gan ddiffyg data cydgysylltiedig.**

Monitro effaith

- 72 Canfuom **fod gweithgarwch monitro cynlluniau'n cael ei oleuo gan adborth rheolaidd gan staff a chleifion ond, heb ddata cydgysylltiedig, bod yr Ymddiriedolaeth yn methu â monitro effeithiolrwydd llwybrau atgyfeirio â sicrwydd.**
- 73 Caiff y canfyddiadau sydd wedi ein harwain i'r casgliad hwn eu crynhoi yn **Arddangosyn 7.**

Arddangosyn 7: dull o fonitro effaith llwybrau amgen ar wasanaethau gofal brys ac argyfwng

Cwestiwn archwilio	Ydy/ Nac ydy/ Yn rhannol	Canfyddiadau
A yw'r Ymddiriedolaeth yn tracio data ac yn adrodd arno i ddangos a yw cleifion yn ceisio mynediad at	Yn rhannol	Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati'n rheolaidd i dracio data perthnasol ar y galw, cyfraddau cyfeirio ac atgyfeirio at wasanaethau amgen (ymgyngori a chau) a chyfraddau cludo i unedau ysbytai, gan gynnwys Adrannau Achosion Brys.

Cwestiwn archwilio	Ydy/ Nac ydy/ Yn rhannol	Canfyddiadau
wasanaethau gofal brys ac argyfwng mewn modd priodol?		Fodd bynnag, nid yw systemau gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth a byrddau iechyd wedi'u cysylltu â'i gilydd ar hyn o bryd i'w gwneud yn bosibl tracio taith cleifion yn ei chyfanrwydd h.y. i gadarnhau a wnaeth cleifion ddilyn y cyngor a gawsant.
A yw adborth rheolaidd gan gleifion yn cael ei geisio a'i ddefnyddio i oleuo a gwella cynlluniau?	Ydy	Mae'r Ymddiriedolaeth yn casglu adborth cleifion trwy arolygon CIVICA Experience rheolaidd¹¹. Ceir arolygon ar gyfer 999, 111 a gwasanaeth cwympiadau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r arolygon hyn yn casglu ymatebion cleifion i gwestiynau gan gynnwys eu sgôr ar y cyfan i'w profiad o'r gwasanaeth a gawsant, yn ogystal â chwestiynau mwy penodol, megis a yw cleifion yn bwriadu dilyn y cyngor y maent wedi'i ganfod ar y wefan 111 Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod cyfraddau ymateb i'r arolygon hyn yn isel, gyda 371 o ymatebion ar draws pob un a restrir uchod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024, ac mae'n parhau i archwilio opsiynau i gynyddu cyfranogiad. Mae atodiadau ategol CTCI yr Ymddiriedolaeth yn crynhoi adborth a phryderon cleifion mewn perthynas â gwasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau 111 a 999 ac yn eu cysylltu â chamau gweithredu penodol yn y cynllun sydd wedi'u bwriadu i fynd i'r afael â'r pryderon hynny a gwella profiad cleifion.
A yw adborth gan staff yn cael ei gasglu'n rheolaidd ar effaith newidiadau i wasanaethau a chynlluniau peilot i	Ydy	Mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad i glywed gan staff, gan gynnwys trwy gyfarfodydd staff rhithwir WAST Live misol, arolygon a sioeau teithiol chwemisol gan y Prif Weithredwr a gynhelir mewn gorsafoedd a swyddfeydd ambiwlansys ledled Cymru.

¹¹ Meddalwedd yw Civica Experience sy'n helpu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gasglu a dadansoddi data i droi sylwadau adborth cleifion yn fewnwelediadau.

Cwestiwn archwilio	Ydy/ Nac ydy/ Yn rhannol	Canfyddiadau
adnabod gwersi a'u rhoi ar waith?		Ar ben hynny, mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys cynrychiolwyr undebau llafur mewn gweithgorau allweddol ac ym mhob un o bwyllgorau'r bwrdd, yn ogystal â thrwy Dîm Partneriaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Mae'r mecanweithiau hyn yn darparu safbwynt staff yn ystod prosesau penderfynu. Ym mis Ionawr 2025, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth arolygu staff a oedd yn rhan o gyflawni Rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol a'r mentrau newydd cysylltiedig. Gofynnodd yr arolwg i staff am eu barn ynglŷn â'r ffordd y mae newidiadau wedi cael eu rhoi ar waith. Roedd y gyfradd ymateb yn isel, sef 17% (30 o ymatebion), ac er bod y sgoriau ar y cyfan yn gadarnhaol gan mwyaf, roedd sylwadau'n cynnwys pryderon ynghylch y pwysau a achosir gan gyflymder a graddfa'r rhaglen, yn ogystal ag angen am ymgysylltu mwy rheolaidd ac ystyrlon â staff. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi ar hyn o bryd yn datblygu camau gweithredu i ymateb i'r pryderon hyn. Mae adborth staff a chamau gweithredu cysylltiedig i ymdrin â meysydd sy'n achosi pryder yn cael eu cynnwys yn un o atodiadau CTCl yr Ymddiriedolaeth hefyd.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Goruchwylio a chraffu

- 74 Canfuom **fod goruchwylio a chraffu gweithredol a strategol rheolaidd ar berfformiad a chyflawni cynlluniau.**
- 75 Caiff y canfyddiadau sydd wedi ein harwain i'r casgliad hwn eu crynhoi yn **Arddangosyn 8.**

Arddangosyn 8: dull o oruchwyllo a chraffu ar wasanaethau gofal brys ac argyfwng

Cwestiwn archwilio	Oes/ Nac oes/ Yn rhannol	Canfyddiadau
A oes goruchwyliaeth effeithiol ar berfformiad gofal brys ac argyfwng yn weithredol, gan gynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd cynlluniau a chamau gweithredu i ateb y galw'n well?	Oes	Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu goruchwyliaeth a chraffu gweithredol ar ei chamau gweithredu i wella'r modd y rheolir y galw trwy ei Bwrdd Trawsnewid Clinigol, a ffrydiau gwaith ategol, yn ogystal â'i Grŵp Cynllunio a Datblygu Strategol Integredig. Ategir y grwpiau hyn gan drefniadau cryf, gan gynnwys aelodaeth briodol a mynychder rheolaidd. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i oruchwyllo a rheoli perfformiad yn unol â'i Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad 2022-25. Creffir ar berfformiad gweithredol ar lefelau manwl gan is-grwpiau gweithredol, ansawdd a chynllunio amrywiol cyn i'r wybodaeth gael ei choladu a'i chyflwyno ar gyfer goruchwyllo a herio gan y Tîm Arwain Gweithredol.
A oes goruchwyliaeth effeithiol ar berfformiad gofal brys ac argyfwng ar lefel pwyllgorau a'r bwrdd, gan gynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd cynlluniau a chamau gweithredu i ateb y galw'n well?	Oes	Adroddir yn rheolaidd ar wybodaeth am berfformiad gwasanaethau gofal brys ac argyfwng yr Ymddiriedolaeth wrth y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid; y Pwyllgor Ansawdd, Profiad a Diogelwch Cleifion; a'r Bwrdd. Yn 2024, datblygodd yr Ymddiriedolaeth gerdyn sgorio lliniaru niwed cleifion. Mae hwn yn darparu set gyfunol o fetrigau i ddynodi lefelau'r niwed a all fod yn digwydd o ganlyniad i bwysau yn y system. Fodd bynnag, eto mae'r wybodaeth hon yn gyfyngedig oherwydd diffyg gwybodaeth gydgyssylltiedig rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r byrddau iechyd sy'n comisiynu ganddi. O ganlyniad, nid yw'r cerdyn sgorio ond yn dynodi amcangyfrif o lefelau'r niwed yn seiliedig ar fodel AACE. Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am oruchwyllo'r cynnydd gyda

Cwestiwn archwilio	Oes/ Nac oes/ Yn rhannol	Canfyddiadau
		Chynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Atodiad 1

Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 9** yn nodi'r dulliau archwilio a ddefnyddiom ni i gyflawni'r gwaith hwn. Mae ein tystiolaeth yn gyfyngedig i'r wybodaeth a gafwyd trwy'r dulliau isod.

Arddangosyn 9: dulliau archwilio

Cyflawnwyd yr holl waith archwilio yn unol â safonau archwilio Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

Elfen o'r ymagwedd archwilio	Disgrifiad
Dogfennau	Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys: • Y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac atodiadau; • Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd; • Archwiliadau Mewnol; • Cynllun y Gaeaf; a • Dogfen Briffio Rhanddeiliaid ynghylch Trawsnewid y Model Clinigol, Medi 2024.
Cyfweliadau	Fe wnaethom gyfweled â'r canlynol: • Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau; • Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth; • Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio Strategol a Pherfformiad; • Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu; a'r • Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Comisiynu a Pherfformiad.
Trafodaethau grŵp	Fe gynhaliom ni drafodaethau grŵp gyda'r canlynol: • Uwch Ymarferwyr Parafeddygol.
Arsylwadau	Fe arsylwom ni ar y cyfarfod(ydd) canlynol: • Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad; a'r • Bwrdd.

Elfen o'r ymagwedd archwilio	Disgrifiad
Dadansoddi data	Fe wnaethom ddadansoddi data mewn perthynas â gwasanaethau gofal brys ac argyfwng, gan ddefnyddio'r ffynonellau canlynol: • Dangosyddion Gwasanaethau Ambiwylans; • Data a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys cyfraddau ymgynghori a chau ac atgyfeiriadau i Ganolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod; • Dangosfwrdd Gofal Brys ac Argyfwng IGDC; • StatsCymru; a • Data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau meddygaeth deulu y tu allan i oriau.
Adolygiadau o wefannau ac arfer	Fe wnaethom adolygu gwefan yr Ymddiriedolaeth a'i chyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â darparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd ynghylch ceisio mynediad at wasanaethau gofal brys ac argyfwng.

Atodiad 2

Meini prawf archwilio

Mae **Arddangosyn 10** yn nodi'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn.

Arddangosyn 10: meini prawf archwilio

Cwestiwn archwilio	Meini prawf archwilio
A oes gan yr Ymddiriedolaeth gynlluniau cadarn i reoli'r galw am wasanaethau gofal brys ac argyfwng?	
A yw cynlluniau'n ceisio gwella'r modd y rheolir y galw trwy newidiadau i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r chwe nod ar gyfer gofal Brys ac Argyfwng?	• Mae strategaethau a/neu gynlluniau sy'n ymwneud â gofal brys ac argyfwng: – yn seiliedig ar wybodaeth gyfoethog a chyfoes ac wedi'u gwreiddio ynddi, wedi'u goleuo gan ddata ar y galw am wasanaethau gofal brys ac argyfwng (yn y gorffennol a'r dyfodol), gan gynnwys brigau mewn gweithgarwch ar adegau/diwrnodau ac mewn misoedd a demograffeg a chyflyrau cleifion penodol; – yn adnabod ac yn ceisio mynd i'r afael â risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â'r galw am wasanaethau gofal brys ac argyfwng; – yn cyd-fynd â chynlluniau Byrddau Iechyd partner; – yn cyd-fynd â gofynion Chwe Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng i reoli'r galw'n well; ac – yn cynnwys gwybodaeth wedi'i dogfennu am lwybrau clinigol amgen, gan gynnwys sut a phryd y dylid ceisio mynediad atynt.
A yw cynlluniau'n adnabod lefelau cyfredol a gofynnol yr adnoddau	• Mae strategaethau a/neu gynlluniau'n nodi'r: – gofynion o ran adnoddau a chyllid a adnabwyd i gefnogi unrhyw newidiadau i ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth/cynllun.

Cwestiwn archwilio	Meini prawf archwilio
a staff i wireddu'r uchelgeisiau?	– gweithlu a sgiliau sy'n ofynnol i ateb y galw, gan gynnwys ar gyfer newidiadau mewn modelau darparu megis brigau yn y gaeaf. Mae'r cynllun yn eglur ynghylch yr adnoddau sy'n ofynnol o ran sgiliau/staff clinigol ac anghlinigol.
A oes trefniadau ar waith i annog a galluogi pobl i gael mynediad at y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf, ac a yw'r rhain yn gweithio?	
A yw'r Ymddiriedolaeth yn cyfeirio'r cyhoedd yn effeithiol at wasanaethau gofal brys ac argyfwng, fel eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau mewn modd priodol?	• Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwybodaeth eglur am wasanaethau sydd ar gael a dewisiadau yn lle adrannau achosion brys ar gyfer y cyhoedd mewn amryw ffyrdd – gwefannau, trinwyr galwadau, posteri/taflenni, hysbysebion, y cyfryngau cymdeithasol, fideos a.y.b. • Mae strategaethau a/neu gynlluniau ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn cyd-fynd â gofynion nodau 2 a 3 yn Chwe Nod Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng (y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf). • Ceir tystiolaeth i awgrymu bod gan gleifion ddealltwriaeth dda am sut i geisio mynediad at wasanaethau gofal brys ac argyfwng sy'n briodol i'w hanghenion.
A oes gan staff wybodaeth dda, a mynediad at wybodaeth, am yr ystod o wasanaethau eraill sydd ar gael i'w cleifion ac ar ba adegau y maent ar gael?	• Ceir ymgysylltu rhwng yr Ymddiriedolaeth a byrddau iechyd am lwybrau amgen sy'n bodoli a dyfodol gwasanaethau gofal brys ac argyfwng. Mae gwybodaeth am y llwybrau a'r gwasanaethau hyn yn hygyrch i staff. • Gall staff atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol/eu hailgyfeirio at leoliadau mwy priodol i'w hanghenion, gan gynnwys Adrannau Mân Anafiadau, Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys a Chanolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod.
A oes tystiolaeth bod newidiadau i'r modd y darperir gwasanaethau'n	• Mae atgyfeiriadau i mewn i fodelau gwasanaeth newydd yn unol ag uchelgeisiau'r llawlyfr polisi chwe nod ar gyfer gofal brys ac argyfwng.

Cwestiwn archwilio	Meini prawf archwilio
arwain at reoli'r galw'n well?	- Gall YGAC atgyfeirio o leiaf 4% o achosion at Ganolfannau Gofal Argyfwng yr Un Diwrnod. - Mae data'n dynodi bod cyfraddau cynyddol o ran Gweld a Thrin a Chlywed a Thrin. - Mae galwadau i 111 yn cael eu hateb yn gyflym ac mae cyfraddau'r galwadau y rhoddir y gorau iddynt yn isel. - Mae amseroedd ymateb ambiwlansys brys, oedi cyn trosglwyddo o ambiwlansys ac arosiadau mewn Adrannau Achosion Brys ac Unedau Mân Anafiadau yn gwella. - Mae data'n dynodi bod llai o alwadau ambr y mae gofyn eu huwchraddio i goch oherwydd amseroedd ymateb maith. - Mae data'n dangos bod niferoedd gostyngol o gleifion ag afiechydon aciwtedd isel/mân afiechydon yn ymgylwyno mewn Adrannau Achosion Brys. - Mae data'n dynodi bod galwadau a gaiff eu hailgyfeirio rhwng 999 ac 111/Galw'r Gig Cymru yn briodol gyda lefelau isel o alwadau'n cael eu hailgyfeirio'n ôl a niferoedd isel o gyfraddau ailgysylltu.
A yw'r Ymddiriedolaeth yn gwneud digon i fonitro perfformiad ei gwasanaethau gofal brys ac argyfwng a rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith i wella'r gwasanaethau ymhellach?	
A yw'r Ymddiriedolaeth yn monitro effeithiolrwydd llwybrau clinigol amgen, gan gynnwys trwy geisio adborth gan staff a defnyddwyr gwasanaethau?	- Mae'r Ymddiriedolaeth yn tracio data ac yn adrodd ar ddata i ddangos a yw cleifion yn ceisio mynediad at wasanaethau gofal brys ac argyfwng mewn modd priodol. - Gall yr Ymddiriedolaeth ddangos tystiolaeth ei bod yn ceisio adborth cleifion yn rheolaidd a'i bod yn ei ddefnyddio i oleuo a gwella cynlluniau. - Mae adborth rheolaidd yn cael ei geisio gan staff amrywiol ar effaith newidiadau i wasanaethau a chynlluniau peilot i adnabod gwersi a'u rhoi ar waith.
A oes craffu a sicrwydd effeithiol mewn perthynas â chyflawni	Ceir goruchwyliaeth effeithiol ar berfformiad gofal brys ac argyfwng ar lefel weithredol ac ar lefelau pwyllgorau a'r bwrdd. Mae hyn yn cynnwys craffu a sicrwydd ar effeithiolrwydd y cynlluniau a'r camau

Cwestiwn archwilio	Meini prawf archwilio
cynlluniau ar gyfer gofal brys ac argyfwng a llwybrau clinigol amgen?	gweithredu i ateb y galw'n well. Goleuir gweithgarwch goruchwyllo a chraffu gan feincnodi cymharol a gwersi o gyrff eraill lle y bo'n briodol. Ceir trefniadau i fonitro a goruchwyllo darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd buddsoddi mewn prosiectau gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys canfod gwerth am arian a pha wahaniaeth y mae'r prosiect wedi'i wneud.

Atodiad 3

Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

Mae **Arddangosyn 11** yn nodi ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r argymhellion a wnaed oherwydd yr archwiliad hwn.

Arddangosyn 11: ymateb y rheolwyr

Argymhelliad	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
Cywirdeb y wefan 111 Cymru A1 Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth a ddefnyddir i gyfeirio cleifion at wasanaethau brys ac argyfwng yn gywir, dylai'r Ymddiriedolaeth weithio gyda phartneriaid i adolygu a disodli unrhyw hen wybodaeth neu wybodaeth gamarweiniol ar y wefan 111 Cymru, er enghraifft rhif ffôn Galw'r GIG Cymru (Paragraff 27).	Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn yr argymhelliad hwn. Er nad yw YGAC wedi'i gomisiynu'n uniongyrchol i reoli'r wefan 111 Cymru, rydym yn llwyr gefnogi'r angen am gynnwys cywir i gyfeirio cleifion yn ddiogel. Rydym yn codi pryderon yn rheolaidd, megis cyfeiriadau sydd wedi dyddio at Galw'r GIG Cymru, a byddwn yn cryfhau hyn trwy uwchgyfeirio materion yn ffurfiol trwy lwybr sicrwydd y cytunwyd arno gydag lechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae achos busnes wedi cael ei ddrafftio i gynnig model llywodraethu newydd gydag adnoddau wedi'u neilltuo ar gyfer goruchwyliaeth a rheoli cynnwys i wella cywirdeb a pherchnogaeth. Mae trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru'n mynd rhagddynt ynghylch amlenni ariannol a disgwyliadau comisiynwyr, sy'n rhagofynion ar gyfer cyflwyno'n ffurfiol.	Mai 2026	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol

Argymhelliad	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	Bydd cywirdeb cynnwys y wefan yn eitem sefydlog yng ngrŵp llywodraethu digidol 111 Cymru a gynhelir yn fisol. Dros y 12 mis nesaf, bydd materion yn cael eu monitro'n weithredol, ac uwchgyfeiriadau ffurfiol yn cael eu logio i ddangos cynnydd a darparu tystiolaeth o gamau gweithredu a gymerwyd.		
Cyfeiriaduron Gwasanaethau A2 Er mwyn sicrhau bod gan yr Ymddiriedolaeth fynediad at wybodaeth gywir a chyfoes am wasanaethau byrddau iechyd, dylai weithio gyda byrddau iechyd i adnabod arweinwyr ar gyfer cynnal y cyfeiriaduron (Paragraff 45).	Mae'r Ymddiriedolaeth yn derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym yn cytuno bod angen gwybodaeth gywir a chyfoes am wasanaethau. Er nad yw YGAC yn rheoli'r cynnwys a ddarperir gan fyrddau iechyd, rydym yn cynnal mecanweithiau i gael a rheoli'r data yma. Y ffordd orau o fynd i'r afael â'r argymhelliad felly yw trwy gydweithio cryfach gyda byrddau iechyd, sy'n dal i fod yn gyfrifol am gywirdeb gwybodaeth am eu gwasanaethau. Mae achos busnes wedi cael ei ddrafftio i wella trefniadau llywodraethu a chymorth mewn perthynas â'r Cyfeiriadur Gwasanaethau. Mae trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru'n mynd rhagddynt ynghylch amlenni ariannol a disgwyliadau comisiynwyr, sy'n rhagofynion ar gyfer cyflwyno'n ffurfiol. Bydd YGAC yn parhau i ddiweddarau unrhyw gynnwys yr ydym yn berchen arno/yn ei gyhoeddi yn	Mai 2026	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol

Argymhelliad	Ymateb y Rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
	y Cyfeiriadur Gwasanaethau a bydd yn uwchgyfeirio unrhyw wybodaeth sydd wedi dyddio at fyrdau iechyd perthnasol. Bydd hyn yn cael ei fonitro dros 12 mis, gydag uwchgyfeiriadau'n cael eu logio fel tystiolaeth o weithredu.		

Ffynhonnell: Archwilio Cymru



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.